**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN BUDDIANNAU | Datganodd y Cynghorydd David Smith fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem 6 ar y Rhaglen ar Wasanaeth Rhanbarthol arfaethedig Cynllunio Rhag Argyfwng. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar bwynt o gywirdeb, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2013 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.* |
| **5** | CYDWEITHREDU RHANBARTHOL GOFALWYR IFANC | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r gwaith i'w wneud i ddatblygu cydweithrediad rhanbarthol / isranbarthol ar gyfer darparu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc ar draws Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.* |
| **6** | GWASANAETH RHANBARTHOL ARFAETHEDIG CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn mabwysiadu'r cynllun busnes terfynol i sefydlu Gwasanaeth rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng ar sail yr hyn a nodir ym mharagraff 4.12 yr adroddiad;*<br><br>*(b) yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol i gymeradwyo'r trefniadau trosglwyddo manwl i'r gwasanaeth newydd ac ymgymryd â'r holl dasgau angenrheidiol i sefydlu'r gwasanaeth newydd, ac* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) argymell bod y gwasanaeth rhanbarthol yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac ar ôl ei weithredu'n llawn.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** cydnabod y gyllideb a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.* |
| **8** | ARGYMHELLION GAN Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD** cefnogi'r prosiectau a fanylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2013/14 a'u hargymell i'r Cyngor Llawn.* |
| **9** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** cydnabod blaenraglen waith y Cabinet.* |
| **10** | CYNLLUN CYFALAF | ***PENDERFYNWYD** cydnabod sefyllfa ddiweddaraf elfen 2012/13 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar brosiectau mawrion ac argymhell cymeradwyaeth y Cynllun Cyfalaf i'r dyfodol i'r Cyngor Llawn.* |